**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2023.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
10 Awst 2023

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470), fel y'i diwygiwyd ("Rheoliadau 2009"), yn darparu'r sail ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 2009 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer codi llog ar fenthyciadau myfyrwyr.

1.2 Bydd Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn gosod cyfradd llog safonol o 7.3% ar gyfer benthyciadau myfyrwyr Cynllun 2 a Chynllun 3 am gyfnod o dri mis o 1 Medi 2023.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Fe wnaed Rheoliadau 2009 fel rheoliadau cyfansawdd gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) a'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn llywodraethu ad-daliadau o fenthyciadau myfyrwyr gan fenthycwyr sydd wedi cymryd benthyciad yn seiliedig ar incwm ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl Medi 1998. Mae Rheoliadau 2009 yn cynnwys darpariaethau (heb eu datganoli i Weinidogion Cymru) a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru a Lloegr sy'n ymwneud â'r system dreth a weithredir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Gwneir rhai darpariaethau eraill gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

2.2 Gan y bydd y Rheoliadau'n destun craffu gan Senedd y DU, ni ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog. Felly, mae Rheoliadau 2023 yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adrannau 22 a 42 o'r Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch dynodedig, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau.

3.2 Mae Rheoliadau 2009 yn darparu'r sail ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr a wnaed gan Weinidogion Cymru ac maent yn cynnwys darpariaeth ar gyfer codi llog ar fenthyciadau myfyrwyr. Y pwerau galluogi ar gyfer Rheoliadau 2023 yw adran 22(2)(g), (3)(a), (4)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

3.3 Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol drwy adran 22(4)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998") sicrhau bod cyfradd llog benthyciadau myfyrwyr naill ai'n is na chyfradd y farchnad, neu nad yw’n uwch na chyfradd y farchnad lle mae'r telerau eraill y darperir benthyciadau o'r fath arnynt yn fwy ffafriol i fenthycwyr na'r rhai sydd ar y farchnad.

3.4 Gwnaeth adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ddarparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru o dan adran 22(2)(g), (3)(a) a (4)(a) o Ddeddf 1998.

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

3.6 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.7 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.8 Mae Rheoliadau 2023 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

*Cyfradd y farchnad*

4.1 Mae benthyciadau myfyrwyr i gael eu had-dalu o ddechrau'r flwyddyn dreth ar ôl i'r benthyciwr adael ei astudiaethau. Ar gyfer benthycwyr sy'n gwneud cyrsiau israddedig a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2012 (benthycwyr 'Cynllun 2'), a benthycwyr sy'n dilyn cyrsiau Gradd Meistr ôl-raddedig a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2017 neu gyrsiau doethurol a ddechreuodd neu ar ôl 1 Awst 2018 (benthycwyr 'Cynllun 3'), maent yn seiliedig ar incwm. Mae benthycwyr yn ad-dalu cyfran sefydlog o'u hincwm sydd dros drothwy penodol.

4.2 Codir llog ar fenthyciadau Cynllun 2 a Chynllun 3 ac mae'n gysylltiedig â chwyddiant drwy'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Gwerth yr RPI a ddefnyddir wrth osod cyfraddau llog yw'r cynnydd canrannol blynyddol yn y mynegai prisiau manwerthu pob eitem yn y deuddeg mis hyd at y mis Mawrth yn union cyn

dechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraddau i'w gosod ar ei chyfer. Cynyddodd yr RPI o 9% ym mis Mawrth 2022 i 12.91% ym mis Mawrth 2023. Mae'r gyfradd llog a godir ar fenthyciadau Cynllun 2 yn amrywio yn dibynnu ar incwm, gan ddechrau ar yr RPI ar gyfer y rhai sy'n ennill £27,295 neu lai a chodi'n raddol i uchafswm o RPI + 3% ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £49,130. Heb ymyrraeth, byddai'r cyfraddau llog ar fenthyciadau felly'n cynyddu i rhwng 12.91% a 15.91% ar gyfer benthycwyr Cynllun 2. Byddai benthycwyr cynllun 3 yn gweld y gyfradd llog yn codi i 15.91% - mae gan y benthyciadau hyn gyfradd llog o RPI + 3% drwy gydol tymor y benthyciad.

4.3 Caiff cyfraddau llog eu gosod ar gyfer cyfnod o flwyddyn academaidd (h.y. 1 Medi – 31 Awst). Mae cyfradd llog newydd yn dod i rym ar 1 Medi bob blwyddyn. Mae'r cyfraddau llog hyn yn destun mecanwaith capio, yn unol â'r ddarpariaeth na ddylai'r cyfraddau fod yn uwch na chyfradd y farchnad. Yn flaenorol, mae Gweinidogion Cymru wedi gweithredu cyfres o gapiau dros dro ar gyfraddau llog drwy'r Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2, 3 a 4) 2021 (S.I. 2021/677, S.I. 2021/1005 ac S.I. 2021/1378 yn y drefn honno), Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2 a 3) 2022 (S.I. 2022/889 ac S.I. 2022/1151 yn y drefn honno), Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2023 (S.I. 2023/129) a Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) 2023 (O.S. 2023/521).

4.4 Nid yw cyfradd y farchnad wedi'i diffinio mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r mesur ymarferol mwyaf priodol o gyfradd y farchnad yw cyfradd llog y mathau mwyaf tebyg o fenthyciadau masnachol, fel y mynegir gan ffynonellau data swyddogol. Dyma gyfraddau llog effeithiol Banc Lloegr ar gyfer benthyciadau personol presennol a newydd sydd heb eu diogelu.

4.5 Mae Rheoliadau 2023 yn cyflwyno cyfradd llog safonol o 7.3% ar gyfer benthyciadau myfyrwyr am gyfnod o dri mis o 1 Medi 2023. Bydd y gyfradd hon yn berthnasol i holl fenthycwyr Cynllun 2 a Chynllun 3 gan fod cyfradd y farchnad yn is na phob un o'r cyfraddau a fyddai'n berthnasol fel arall. Bydd pob benthyciwr yn gweld gostyngiad yn y gyfradd llog sy'n cael ei chymhwyso i'w balans o'i gymharu â'r cyfraddau heb eu capio. Bydd y rhai sydd fel arfer ar gyfraddau amrywiadwy uwch ar gyfer benthyciad Cynllun 2 yn gweld mwy o ostyngiad na'r rhai sydd ar gyfraddau is.

4.6 Ar ôl i'r Rheoliadau ddod i ben ar 30 Tachwedd 2023, bydd y gyfradd llog ar fenthyciadau Cynllun 2 a Chynllun 3 yn dychwelyd i'r gyfradd a bennwyd yn Rheoliadau 2009, oni bai eu bod yn parhau'n uwch na chyfradd y farchnad, ac os felly bydd angen rheoliadau pellach.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal.

**Rhan 2 - Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Yn unol â'r polisi a amlinellir yng nghôd ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, ni chynhyrchwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.2 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn statudol hwn yn ddarostyngedig i'r eithriadau canlynol a nodir yn y cod (fel y cyfeirir atynt uchod):

- *Lle bo'r is-ddeddfwriaeth, yn syml, yn cynyddu ffi statudol, cyfradd treth, taliad, grant neu lwfans yn unol â fformiwla a bennwyd ymlaen llaw.*

Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio'r cap cyfradd llog a gymhwysir i fenthyciadau myfyrwyr ar gyfer benthycwyr Cynllun 2 a Chynllun 3, gan ddefnyddio fformiwla a bennwyd ymlaen llaw. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu mesur o gyfradd y farchnad fel cyfradd llog y mathau mwyaf tebyg o fenthyciadau masnachol, fel y mynegwyd gan ffynonellau data swyddogol. Dyma gyfraddau llog effeithiol Banc Lloegr ar gyfer benthyciadau personol presennol a newydd sydd heb eu diogelu. Mae'r cyfraddau llog yn cael eu monitro a'u cymharu â'r gyfradd bresennol i'w codi ar fenthyciadau myfyrwyr, a a chaiff y gyfradd ei chapio (os oes angen) ar gyfradd y farchnad.

- *Lle bo'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud wrth arfer pwerau statudol a roddir gan Ddeddf neu Fesur nad ydynt mewn unrhyw fodd yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru ynghylch sut y dylai'r pwerau hynny gael eu harfer.*

  Cyfyngir Gweinidogion Cymru gan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i sicrhau nad yw'r cyfraddau llog yn uwch na chyfradd y farchnad ac nid oes ganddynt unrhyw ddisgresiwn i wneud fel arall. Rhaid i Weinidogion Cymru ostwng y gyfradd llog sy'n daladwy fel arall.